# Y Dinesydd

Rhagfyr 2013 Rhif 383 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog


*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y Dinesydd*

## Bygythiadau i Dwf Addysg Gymraeg yn Parhau

Mae'n hysbys i bawb erbyn hyn fod Cyngor Caerdydd wedi dweud nad yw'n bwriadu gweithredu'r cynllun i agor ysgol Gymraeg newydd yn Grangetown. Ond mae hyn wedi sbarduno trigolion yr ardal i ymgyrchu o'r newydd. Dyma ychydig o'r cefndir.

Gwnaed penderfyniad y Cyngor ym mis Gorffennaf ar sail adroddiad i'r Cabinet gan swyddogion yr Awdurdod – adroddiad a gafodd ei feirniadu'n hallt am gynnwys cymaint o anwiredd. Mynnodd y Cyng. Neil MacEvoy fod y penderfyniad yn cael sylw'r Pwyllgor Craffu ddechrau Medi.

Trefnodd sawl tyst i fod yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw i dystiolaethu i'r Pwyllgor ond, yn gyntaf, roedd rhaid rhoi cyfle i'r Cyng. Julia Magill a swyddogion ei hadran i geisio cyfiawnhau'r adroddiad. Pan gafodd aelodau'r Pwyllgor gyfle i holi, roedd cwestiynau'r Cyng. Kelloway (Dem. Rhydd) yn ddigon pigog i achosi i Julia Magill gyfaddef y byddai rhaid iddi fynd yn ôl i'r Cabinet i ailystyried y penderfyniad – ac fe benderfynodd y Pwyllgor wneud hynny heb ragor o drafodaeth nac unrhyw argymhellion o'r Pwyllgor i'r Cabinet.

Ar ôl protest, rhoddwyd cyfle i'r tystion roi eu tystiolaeth, ond nid i holi swyddogion y Cyngor am eu tystiolaeth gyfeiliornus. Serch hynny, fe ddarbwyllwyd y Pwyllgor i fynnu cael cyfle i weld y papurau cyn iddynt fynd i'r Cabinet ar gyfer yr ail benderfyniad.

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar 20 Medi y tu allan i Neuadd y Ddinas i brotestio yn erbyn agwedd y Cyngor tuag at addysg Gymraeg. Cafwyd cefnogaeth drawsbleidiol i Ymgyrch TAG (Trebiwt a Grangetown).

Mewn cyfarfod o'r Cabinet ar 23 Medi dilewyd penderfyniad mis Gorffennaf –ond ni wnaed penderfyniad newydd! Bydd hynny'n digwydd ar ddyddiad arall, amhenodol hyd yn hyn. Mynnodd Julia Magill fod y feirniadaeth ar ystadegau ei swyddogion yn anghywir, sy'n anodd deall pan mae'n seiliedig ar ystadegau cyhoeddus y Cyngor ei hunan.

Ers hynny mae'r Cyngor wedi penderfynnu cynnal arolwg manwl o'r angen am addysg Saesneg a Chymraeg, ac ni fydd y canlyniadau ar gael tan fis Ionawr, pan gawn glywed am y camau nesaf. Yn y cyfamser bydd rhaid i rieni Trebiwt a Grangetown geisio lle i'w plant yn yr ysgolion Cymraeg presennol, sydd eisoes yn llawn.

**Michael Jones**

## Newyddion Ysgol Glantaf

### Ymwelwyr o Ffrainc

Ers wyth ar hugain o flynyddoedd, mae adran Ffrangeg Ysgol Glantaf wedi bod yn trefnu taith gyfnewid gydag ysgol St Sébastien yn Landerneau yn Llydaw. Daeth 30 o ddisgyblion Ffrangeg i Gymru yn mis Tachwedd i aros gyda disgyblion o'r ysgol. Roedd yn wythnos llawn hwyl, gydag ymweliadau a nosweithiau i gymdeithasu gyda ffrindiau newydd. Rydym yn edrych ymlaen at weld ein ffrindiau newydd eto pan awn ni draw yn mis Ebrill!



*Ymwelwyr ar eu ffordd*

### Talentau'r Taf


Er cof am dri aelod o staff Glantaf; Rhodri Rhys, Muriel Bevan a Rhian Davies

Am ddwy noson fendigedig â thalentau Glantaf yn cael eu harddangos ar eu gorau! 'Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang a phawb wrth eu boddau i weld y disgyblion o flynyddoedd 7-13 yn eu diddanu mewn amrywiol ffyrdd. Roedd ôl sglein ar bob perfformiad, o'r ensemblau a'r bandiau offerynnol amrywiol i'r canu corawl, o'r dawnswyr stryd i'r cyflwyniadau dramatig a'r ymgomau llawn hiwmor, a'r sgit ar ganu cerdd dant!

Roedd y plant iau yn cyflwyno detholiad o 'Nia Ben Aur', a'r rhai hŷn, detholiad o'r sioe 'Jiwdas'. Yr uchafbwynt oedd y disgyblion yn canu 'Anfonaf Angel' mewn un corws mawr ar y diwedd.

Hyfryd oedd croesawu aelodau o'r tri theulu i'n plith. Bydd y cyngherddau yn aros yn hir yn y cof gobeithio, fel y byddwn ni yn cofio yn annwyl iawn iawn am Rhodri, Muriel a Rhian.

*Parhad ar dudalen 2*



*Mwynhau'r gyngerdd*

# Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
**Miranda Morton**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Bryan James**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Chwefror erbyn 27 Ionawr i:
52 Highfields, Llandaf, Caerdydd
CF5 2QB
Ffôn: 029 20 566731
e-bost: db.james@ntlworld.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Bryan James
52 Highfields, Llandaf,
Caerdydd CF5 2QB
029 20 566731
db.james@ntlworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.**

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr
**CABAN**, Pontcanna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina
**HALLS**, Llandaf
**HALCYON DAZE**, Wellfield Road
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, Penarth
**FOOD FOR THOUGHT**, Y Barri

Criw Pray4Padi ddaeth yn ail yn yr Inspire Awards, Caerdydd yn erbyn bwlio, am eu gwaith yn codi arian i elusen.



*Criw Pray4Padi*



*Tîm llwyddiannus a'i darian*

Llongyfarchiadau i dîm siarad cyhoeddus Ysgol Glantaf a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotari ar gyfer holl ysgolion De Cymru. Aelodau'r tîm oedd Gruff Thomas, Rhidian Thomas a Rebecca Hayes o flwyddyn 12. Enillodd Rebecca wobr Cadeirydd y Noson ac enillodd Rhidian wobr Cynigydd y Noson a Siaradwr y Noson hefyd. Llongyfarchiadau i'r tri ohonynt.

**Siân O'Reagan**

# Merched y Wawr Bro Radur

Ar 6 Tachwedd cawsom wledd o ddiwylliant ac adloniant yng nghwmni'r Barnwr Eleri Rees. Hi yw Cofiadur Caerdydd sydd â chyfrifoldeb am lysoedd y Goron yng Nghaerdydd, Casnewydd a Merthyr.

Yn wreiddiol o Landre, Ceredigion, aeth i golegau Lerpwl a Llundain a dod yn far-gyfreithiwr ym 1975. Dychwelodd i Gymru a chael swydd clerc ynadon yn y llys yng Nghaerdydd. Yn yr wythdegau cafodd ei phenodi yn bennaeth ar y llys yn Bow St. i ddelio ag achosion troseddol ac achosion teuluol, o bethau dibwys i bethau difrifol. Diddorol oedd clywed am yr hawl i roi trwydded i actorion ifanc i berfformio tramor, a'r profiad o eistedd fel llys tramor.

Dau beth oedd yn arwyddocaol o'r sgwrs hynod ddiddorol gan y Barnwr sef ei hymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr iaith Gymraeg a'i chonsyrn am y gwahaniaethu o ran rhyw sy'n bodoli ym myd y gyfraith. Hi yw barnwr cyswllt yr iaith Gymraeg sy'n gwarchod yr hawl i ddefnyddio'r iaith ac yn arolygu safon a chywirdeb y cyfieithu ar y pryd. Cychwynnodd ei safiad dros hawliau merched wrth iddi wrthod cyngor yr ysgol nad oedd y gyfraith yn yrfa i ferch. 'Roedd yn gyfnod pan oedd disgwyl i ferched gael graddau llawer uwch na bechgyn cyn cael eu derbyn i astudio'r gyfraith. Er i bethau newid rhywfaint, mae'r ystadegau yn pwysleisio'r lleiafrif bychan o ferched sydd ym myd y gyfraith yng Nghymru. Erbyn hyn mae Eleri Rees yn Farnwr Cyswllt Uwch ac yn cael ei chyfarch fel "Eich Arglwyddes," ac fe roddodd noson o hanes personol a siwrne gyrfa arbennig iawn inni yn Radur.



*Delyth gyda'i chwaer y Barnwr Eleri Rees ac Elsbeth*

Wrth ddiolch iddi am noson mor addysgiadol a difyr, dywedodd Elsbeth Edwards ein bod yn ffodus iawn fel cangen i gael gwesteion mor arbennig i ddod atom, a hynny'n aml iawn drwy gysylltiad teulu neu ffrindiau. Lwcus bod Delyth Williams yn perthyn i Gangen Bro Radur. Doedd Eleri Rees ddim wedi annerch cymaint o ferched gyda'i gilydd o'r blaen a doedd neb o'r aelodau wedi cael sgwrs gan ferch o farnwr.

**Cath Edwards**

# Merched y Wawr Cangen Caerdydd

Beti George gafodd groeso i gyfarfod y gangen nos Fawrth, 12 Tachwedd. Roedd rhaid cario cadeiriau ychwanegol i'r neuadd, cynifer oedd ag awydd i weld y ddarlledwraig adnabyddus o'r radio a theledu.

Agor trafodaeth wnaeth hi ar effaith y clefyd dementia ar unigolion a'u teuluoedd, a'r diffygion sydd, yn ei phrofiad hi, yn y ddarpariaeth wedi i glaf dderbyn diagnosis. Soniodd am ei hymwneud â'r Athro Tony Bayer, ymgynghorydd yng Nghaerdydd, a'r Athro Bob Woods, arbenigwr ym Mangor; y nhw, ynghyd ag eraill, yn brawf fod yng Nghymru arbenigedd yn y maes ac y dylai hyn arwain at well dyfodol i'r cleifion a'u teuluoedd.



Beti George gyda Shan Morgan

*Gweledigaeth Genedlaethol ar Ddementia* yw enw dogfen Llywodraeth Cymru ar y ffordd ymlaen ond gan fod cyllid i'w gweithredu mor brin, nid oedd Beti yn gweld y byddai pethau'n gwella. Mynnai fod y diffyg mewn darpariaeth gwelyau "hoe dros dro" yn sefyllfa druenus pan fo gofalwyr dan gymaint o bwysau. Yn bennaf, roedd Beti'n galw am baratoi cyfarwyddyd clir y gall teuluoedd droi ato i gael gwybodaeth am y ddarpariaeth sydd yn eu hardal. Hefyd gresynai at y diffyg darpariaeth sydd ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn y maes hwn.

Denodd ei sylwadau nifer fawr o ymatebion gan rai â phrofiad ym maes gofal ac oddi wrth eraill a fu neu sydd yn ymwneud â pherthnasau tost. Cafodd Bethan Williams, y Cadeirydd, drafferth i ddod â'r sesiwn i ben!

**Lona Roberts**

## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 21 Hydref, daeth y Dr. Ralph Vaughan atom i sôn am faes ei arbenigedd, anaesthesia. Dechreuodd drwy olrhain datblygiad dulliau lleddfu a difa poen o amser y Frenhines Fictoria, pan oedd safonau iechyd cyhoeddus yn isel, gyda'r rhan fwyaf o ddynion yn marw yn 43 oed a menywod yn 30 oed. Ymhlith y poenladdwyr arloesol mewn ysbytai oedd iâ a morffin. Clywsom am fenter Horace Wells gyda nwy chwerthin a William Thomas Green Morton gydag ether, wrth dynnu dannedd. Bu rhai ohonom yn cofio ffilmiau cowboi pan roddwyd chwisgi i gysuro'r dioddefwr a dofi'i deimlad o boen.

Erbyn tua 1890-1900 daeth defnydd anaesthetegau yn fwy cyffredin, yn enwedig clorofform a ddarganfuwyd gan James Simpson. Yn yr ugeinfed ganrif cafwyd dulliau newydd, megis chwistrelliad i'r gwaed ac i'r asgwrn cefn (epidwral). Wrth wrando ar Ralph doedd ond diolch am y ddarpariaeth reoledig sy ar gael heddiw, gyda'r dychymyg yn codi braw am brofiadau cleifion y gorffennol ac nid y gorffennol pell chwaith.

Nos Lun 18 Tachwedd, cawsom achlysur newydd yn hanes ein cymdeithas, sef, awdur yn sôn am ei brofiadau wrth lunio llyfr. Yr awdur oedd y Parch Ieuan Davies a'r llyfr, *Syr John Meurig Thomas, Gwerthfawrogiad o'i Fywyd a'i Waith*. Gyda'i huodledd afaelgar bu Ieuan yn ein tynnu at ei bryder wrth ymgymryd â'r fath fenter a hefyd at ei falchder gostyngedig o fod wedi 'cwpla'r job.' Rhannodd Ieuan ei ddiolch dwfn i nifer fawr o wyddonwyr disglair ar draws y byd am eu hymatebion parod, gan ysgafnhau ei dasg wrth iddynt ddatgan eu hedmygedd o Syr John mewn atgof, ysgrif a neges e-bost.

Byddwn yn cyfarfod nesaf ar Ionawr 20fed; am fanylion cysylltwch â Neville Evans ar 0791 325 7371

**Neville Evans**

# Cymrodorion Caerdydd

Yng nghyfarfod mis Tachwedd cafodd y Cymrodorion gyflwyniad PwyntPŵer diddorol dros ben gan yr Athro Bill Jones a drafododd sut y tyfodd yr Amgueddfa Genedlaethol o Amgueddfa Ddinesig Caerdydd.

Menter breifat y gŵr busnes, Peter Price, a sefydlodd lyfrgell (a dderbyniai greiriau i'w diogelu) uwchben yr Arcêd Brehinol ym 1861 oedd y man cychwyn. Yna ym 1863 sefydlodd Cyngor Caerdydd Is-bwyllgor Amgueddfa, a dechrau'r ymdrech ddinesig i gael amgueddfa i Gaerdydd.

Ym 1864 cafwyd llawr uchaf adeilad yr YMCA fel cartref i'r Amgueddfa ac yno y bu tan 1882. Dwy gymdeithas a fu'n egnïol iawn yn eu cefnogaeth i'r Amgueddfa o'r cychwyn oedd Cymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd a Chymrodorion Caerdydd.

Y datblygiad pwysig nesaf oedd prynu tir oddi wrth yr Ardalydd Bute ym Mharc y Plas fel safle i godi Amgueddfa Ddinesig ym 1894. Ym 1896 agorwyd Ysgol Gelf yn Stryd y Drindod, Yr Ais, a chafodd yr Amgueddfa lawr cyfan yn yr adeilad newydd.

Daeth gwedd genedlaethol i'r ymdrechion i sicrhau amgueddfa gyda phenderfyniad Senedd San Steffan ym 1903 mai priodol fyddai sefydlu Amgueddfa Genedlaethol yng Nghymru megis a gaed yn yr Alban ac Iwerddon. Byddai'r Trysorlys yn edrych yn ffafriol ar geisiadau grwpiau a feddai ar gasgliadau sylweddol yn barod. Ar unwaith fe aed ati i ymgyrchu o blaid Caerdydd fel cartref i Lyfrgell ac Amgueddfa Genedlaethol i Gymru – ond yr oedd trefi eraill â dyheadau tebyg!

Ym 1905 cyhoeddodd y Cyfrin Gyngor mai Aberystwyth fyddai'n cael y Llyfrgell a Chaerdydd yr Amgueddfa. Meddai rhyw fardd cocosaidd yn y *Welsh Gazette*:

> Cynnes cura calon Cymru
> Am mai tegwch barn a orfu,
> Nid Caerdydd a ga'dd y cyfan
> Er ei berw mawr a'i ffwdan.

Gosodwyd carreg sylfaen yr Amgueddfa Genedlaethol ym 1912 ac ym 1927 cafwyd yr agoriad swyddogol gyda chasgliad dinesig Caerdydd yn furfio craidd y sefydliad cenedlaethol newydd.

**Gwynn Matthews**

# Pytiau...

## Llongyfarchiadau

John Davies, Pantnawr, Rhiwbeina ar ddathlu ei ben-blwydd yn bedair ugain oed yn diweddar ac am ennill medal aur yr Adran Hŷn cystadleuaeth flynyddol "Caerdydd yn ei Blodau."

Hywel ac Elin Roberts Grangetown ar enedigaeth Nel yn ysbyty'r Brifysgol ar 22 Hydref.

Catrin Rogers gynt o'r Eglwys Newydd ar ei phriodas â Ben Ewart-Dean ddydd Sadwrn y 16eg o Dachwedd yn Neuadd Buckland Bwlch ar Fannau Brycheiniog. Maen nhw wedi ymgartrefu yn y Rhath.

## Nofelydd arall o Riwbeina

Ychydig fisoedd yn ôl roedd Rhiannon Gregory o Riwbeina yn lawnsio nofel a nawr mae nofelydd arall o Riwbeina newydd lawnsio ei bumed nofel mewn noson yng Nghanolfan y Gate yn y Rhath nos Lun y 4ydd o Dachwedd. Daw Ioan Kidd o ardal Port Talbot yn wreiddiol ond mae'n byw yn Rhiwbeina ers blynyddoedd bellach. (Gweler adolygiad Mair Rees o'i lyfr newydd yn y rhifyn hwn.) Yn rhyfedd iawn, mae tri nofelydd Cymraeg yn byw yn Rhiwbeina a'r trydydd nofelydd ydy Llwyd Owen. Mae rhaid bod hyn yn record!

## Seren newydd y byd seiclo

Mae enw Owain Doull - o Gaerdydd ac yn gyn-ddigybl yn ysgol Gyfun Glantaf – yn ymddangos yn eitha aml yn y papurau y dyddiau hyn oherwydd ei gampau ar y trac seiclo. Yn ddiweddar bu Owain yn seiclo mewn rasys yn yr Iseldiroedd a Manceinion gan ennill medalau. Llongyfarchiadau Owain a phob llwyddiant eto yn y dyfodol.

## Croeso i Gymru!

Mae angen i'r diwydiant ymwelwyr yng Nghymru gefnogi agwedd broffesiynol ym mhob maes o'r diwydiant i ddenu mwy o ymwelwyr o ledled y byd i ymweld â Chymru ar eu gwyliau. Dyna ddywed Manon Williams - gynt o Riwbeina - a hithau yn bennaeth adran ymwelwyr a marchnata Llywodaeth Cymru ers mis Tachwedd diwethaf.

## Mynd a dod ar y pwyllgor

Ar ôl blynyddoedd o fod yn aelod o Bwyllgor y Dinesydd mae Robin Griffith yn rhoi'r gorau iddi oherwydd afiechyd. Ar ran pawb sy'n gysylltiedig â'r Dinesydd, hoffwn ddiolch iddo am ei ffyddlondeb i'r achos, gan ddymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol. Ond 'bugeiliaid newydd sydd', a phleser yw croesawu pum aelod newydd i rengoedd y pwyllgor, sef Lowri Cooke, Aled Wyn, Miranda Morton, a Gwilym ac Eirian Dafydd. Maen nhw eisoes wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr. Diolch.

**Gwilym Roberts**

## *Cydymdeimlo â*

• theulu y diweddar Edna Protheroe, Caerfyrddin a fu farw yn Ysbyty Glangwili ar y 13eg o Dachwedd. Bu'r angladd yng Nghapel Cendy, Abernant ar yr 21ain o Dachwedd.

## Dymuniadau gorau

I Meic Stevens y llenor sy wedi bod yn derbyn triniaeth am ganser yn Ysbyty'r Brifysgol yn ystod y misoedd diwethaf.

## Marw cyn-brifathro Ysgol Gwaelod y Garth

'Nôl yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf, agorodd Cylch Meithrin Cymraeg yn Ffynnon Daf gan rai rhieni brwd dros yr iaith yn yr ardal. Yna gwnaed cais i Gyngor Morgannag am ysgol Gymraeg fel dilyniant i blant y cylch. Dan arweiniad yr Arolygydd Ysgol Lewis Angel agorwyd Uned Gymraeg yn ysgol pentref Gwaelod y Garth ym Medi 1967 a'r prifathro oedd Hywel Lewis, oedd yn gefnogol iawn i dderbyn yr Uned yn ei ysgol. Cynyddodd y Uned nes bod mwy o blant yrn yr Und Gymraeg nag oedd yn yr Uned Saesneg. Mae'r Uned yn dal i ffynnu heddiw diolch i waith yr arloeswyr ac i Hywel Lewis am ei arweiniad doeth.

Bu farw Hywel yn ei gartref yn y Creigiau ar y 23ain o Hydref ac ar ôl gwasanaeth yng Nghapel Sardis Pontypridd fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Eglwys Dewi Sant y Groesfaen. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu colled fawr.

**Gwilym Roberts**

## Cymdeithas Cymru-Ariannin

Cynhaliwyd cyfarfod o Gangen y De o'r Gymdeithas nos Fercher y 13eg o Dachwedd pan ddaeth y Parch Eirian Lewis, Sir Benfro i siarad am y llenor Eluned Morgan o'r Wladfa.

## Apêl Oxfam am lyfrau a chryno-ddisgiau ail-law yn y Gymraeg

Os oes gennych chi lyfrau neu gryno-ddisgiau yn y Gymraeg neu am Gymru yr hoffech ei roi (neu gael gwared ohono!), mae siop ar-lein Oxfam am eu gwerthu ar wefan yr elusen. Mae'r elw a wneir o'r gwerthiant yn mynd tuag at brosiectau sydd wedi eu trefnu mewn ymateb i drychinebau ar draws y byd fel y rhai yn Bangladesh, Haiti a Syria. Maent yn edrych ar y posibiliad o gynnig categori ar eu gwefan i'r rhai â diddordeb mewn cyhoeddiadau Cymreig a Chymraeg. Bydd y penderfyniad yn dibynnu ar faint o gyflenwad a ddaw.

Yn swyddfa Oxfam, 33 Whitchurch Road, Caerdydd yn unig y byddant yn casglu'r llyfrau hyn, a bydd gofyn i chi labelu'r llyfrau at sylw'r swyddfa ar-lein, sy uwchben y siop. Gellid eu cludo yno yn ystod oriau agor y siop sef o 9:30 y.b hyd 4:30 y pnawn, ddydd Llun tan ddydd Sadwrn.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Evans ar 029 20623608 (dydd Llun, Iau neu Wener). Byddant yn ddiolchgar am bob rhodd.



# Colofn G.R.

Dyma fy ngholofn olaf ar gyfer 2013 ac mae'r flwyddyn wedi pasio fel y gwynt. Fel ein bod yn mynd yn hŷn mae'r blynyddoedd yn ymddangos yn mynd yn fyrrach! Mae hi'n Aeaf bellach ond cawson ni Hydref lliwgar fel arfer a'r golygfeydd hydrefol yn ddigon o ryfeddod. Er gwaethaf y ffaith ei fod yn Aeaf gallwn gyfrif ein bendithion wrth gofio am bobl y Pilipinas yn eu trueni ar ôl y storm wynt anferthol a ddifrodwyd sawl ardal o'r wlad honno.

Mae Sul y Cofio wedi pasio ers tro ac erbyn hyn mae sôn am y digwyddiadau yn 2014 fydd yn coffáu dechrau'r Rhyfel Mawr gan mlynedd yn ôl. Mae hyn wedi fy atgoffa fy mod i wedi bod yn filwr unwaith; yn amser heddwch diolch byth pan oedd pob llanc iach deunaw oed yn gorfod cyflawni dwy flynedd o wasanaeth milwrol. Es i bron ar fy union o fod yn ddisgybl Chweched Dosbarth yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Penarth i wersyll milwrol yng Nghroesoswallt a throi yn Gunner yn y Royal Artillery!

Treuliais i fy amser yng Nghroesoswallt, Doc Penfro, Casnewydd, a Warrington tra aeth fy mrawd i'r Royal Engineers a threulio amser yn Lloegr, Yr Alban a'r Aifft! Mae trigain mlynedd wedi pasio ers hynny bellach ac mae llawer o ddŵr wedi mynd dan y bont erbyn hyn ond mae'r profiad yn dal yn fyw ar fy nghof.

Bues i'n glerc yn swyddfa un o'r bateris yn fy nghatrawd ac un diwrnod dyma'r ffôn yn canu. Rhyw Mrs Davies o Nercwys Sir y Fflint odd yno yn holi am ganiatâd i'w mab ddychwelyd i'r ffarm i gynorthwyo yn y cynhaeaf. Sgwrsiais â hi yn y Gymraeg ond yn sydyn dyma'r Battery Sargeant Major yn camu drwy'r drws a'm clywed yn siarad Cymraeg â Mrs Davies. Cydiodd yn y ffôn a sicrhaodd y wraig y byddai ei mab yn cael dod adre i'r cynhaeaf. Yna, dyma droi ata'i ac yn dweud "You b… old druid"! A dyna fy enw ganddo am amser wedi hynny!

Yn ystod mis Hydref cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Mudiad Meithrin yn Aberystwyth ac yn sgil y Cyfarfod hwnnw derbyniais i'r Adroddiad Blynyddol am 2012-2013. Os oedd clywed ffigyrau siomedig y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011 wedi codi'r felan ar garwyr yr iaith yna mae ffigyrau yn yr Adroddiad hwn yn mynd i godi calon pawb sy'n ymhél â'r iaith. Yn 2012-2013 oedd tua 550 o gylchoedd Meithrin Cymraeg ar waith ledled Cymru hefo dros 12,000 o blant yn eu mynychu a thros 450 o Gylchoedd Ti a Fi ar waith hefo dros 9,000 o blant yn eu mynychu. Gwych ynte?

Sefydlwyd y Mudiad Meithrin nôl yn 1971 a thros y blynyddoedd mae'r Mudiad wedi mynd o nerth i nerth ac erbyn hyn nhw ydy prif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector wirfoddol. Mae ein diolch yn ddyledus i'r holl athrawon a'u cynorthwywyr sy'n rhoi gobaith am barhad yr iaith er gwaethaf pawb a phopeth.

Llongyfarchiadau i Rhys Priestland un o'n sêr rygbi. Pan gafodd ei gyfweld yn Gymraeg ar S4C cyn y gêm rhwng Cymru a De Affrica wnaeth o ddefnyddio'r gair "felly" fwy nag unwaith yn y sgwrs yn lle'r gair Saesneg "so" sy'n britho cymaint o sgyrsiau y to iau y dyddiau hyn. Da iawn Rhys! Mae clywed y defnydd o "so" yn fy anfon yn benwan!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr y golofn hon a gweddill y papur. Felly "so-long" tan 2014! Wps! Dyna fi wedi colli marc nawr!

# Ôl-Lwybrau

Eleni, mae Pentre'r Gerddi yn Rhiwbeina yn dathlu ei chanmlwyddiant a threfnwyd nifer o weithgareddau i ddathlu'r achlysur. Cafwyd seremoni dadorchuddio plac ar wal yr hen swyddfa Casglu Rhenti yn Lôn Fach gan Arglwydd Faer Caerdydd ac yn y swyddfa hon y cynhaliodd yr Athro W J Gruffudd a'r Dr Iorwerth Peate, Ysgol Sul Gymraeg i oedolion 'nôl yn ugeiniau'r ganrif ddiwethaf. Hefyd yn y swyddfa hon y cynhaliwyd y cyfarfodydd cyntaf i drefnu agor Ysgol Feithrin Gymraeg yn y pentre 'nôl ym 1959.

Sefydlwyd y pentre unigryw hwn 'nôl yn ugeiniau'r ganrif ddiwethaf pan oedd Rhiwbeina yn dal yn ardal wledig heb ddim ond capel ac ychydig o dai a ffermydd ar wasgar hyd y Fro. Ar hen fapiau'r Sir cyfeiriwyd at yr ardal fel Rhydwaedlyd nid Rhiwbeina ond daeth yr enw newydd pan adeiladodd Bute reilffordd drwy'r pentre i gario glo o Nantgarw i'w allforio o borthladd Caerdydd i bedwar ban byd.

Gweledigaeth gŵr o'r enw yr Athro Stanley Jevons, darlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd ar y pryd, oedd Pentre'r Gerddi yn Rhiwbeina gan iddo gael ei ysbrydoli gan fudiad yn Llundain oedd yn gweithio i godi tai addas i weithwyr y wlad yn y ddinas honno.

Casglodd Jevons nifer o bobl alluog ynghyd i drafod y posibilrwydd o sefydlu pentre gerddi tebyg yn ardal Caerdydd. Bu chwilio am le addas a phrynwyd tir yn perthyn i Ystâd Pentwyn yn Rhydwaedlyd ac aethpwyd ati i godi tai yn y Groes, Lôn Isa a Lôn y Dail ac yn hwyrach ym Mhen y Dre ym 1912/13. Rhoddwyd enwau Cymraeg ar y strydoedd drwy ddylanwad yr Athro W J Gruffudd ac ar hyd y blynyddoedd bu Pentre'r Gerddi yn Rhiwbeina yn gartre i lu o bobl amlwg ym mywyd academaidd a llenyddol Cymru, pobl megis y Dr Kate Roberts, y Dr Iorwerth Peate, yr Athro R T Jenkins, y Dr Ffransis Payne, Jack Jones ac Edgar Chappell.

Roedd Rhiwbeina yn yr hen Sir Forgannwg tan yr ad-drefnu llywodraeth leol 'nôl yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf pan ymgorfforwyd yr ardal yn rhan o ddinas Caerdydd. Dynodwyd Pentre'r Gerddi yn Ardal Gadwraethol gan gyngor y ddinas ym 1977 ac mae carreg a phlac arni i gydnabod statws newydd y pentre ger y Llyfrgell ym Mhen y Dre

Buodd elfen Gymreig yn bodoli yn yr ardal hon ers y dechrau ac mae cannoedd o siaradwyr Cymraeg yn dal i fyw yna. Fel y soniwyd ynghynt bu Ysgol Sul Gymraeg yma 'nôl yn ugeiniau'r ganrif ddiwethaf ac yna ym 1959 sefydlwyd yr Ysgol Feithrin Gymraeg ac ym 1982 daeth y Wesleaid i'r ardal o ganol Caerdydd a dod â chapel Cymraeg yn ôl yma ar ôl i Gapel Beulah droi yn Saesneg ei iaith ym 1898. Sefydliad arall i ddynion oedd Cymry'r Wenallt a ddaeth i ben ar ôl sefydlu Cymdeithas Gymraeg yn Rhiwbeina ym 1992.

Mae'n werth ymweld â'r ardal hynod hon i gerdded o gwmpas y pentre i edmygu pensaerniaeth y tai a harddwch y strydoedd, yn arbennig yn y Gwanwyn pan fydd môr o gennin Pedr yn creu darlun atyniadol. Mae Parc y Pentre yn lle braf i eistedd ynddi yn yr Haf cyn treulio amser yn siopa ac yn cael paned a byr-bryd yn yr Olive Branch neu Snails. Dewch yma ar droed, ar fws neu drên neu gar! Dwy'n siŵr na chewch chi mo'ch siomi achos mae Rhiwbeina yn lle gwerth ei weld!

**Gwilym R. Roberts**

# Ymddeoliad y Parchedig Glyn Tudwal Jones, MA

Ar hyn o bryd rwy'n darllen copi o'r *Gadwyn*, misolyn Eglwys y Crwys, Caerdydd, am fis Tachwedd 2001, ddeuddeng mlynedd yn ôl bellach. Ynddo ceir nifer o eitemau sy'n ymdrin â Chyfarfod Sefydlu ein gweinidog newydd, y Parch Glyn Tudwal Jones. Mae'n rhyfedd fel mae'r amser wedi mynd heibio mor gyflym ers iddo ddod atom i ddilyn y Parch Cynwil Williams yn yr ofalaeth. Cynhaliwyd y cyfarfod hwnnw brynhawn Sadwrn 13 Hydref y flwyddyn honno. Ymsefydlodd Glyn yn gyflym iawn yn ein plith gan ymgymeryd â'i ddyletswyddau yn union wedi cyfnod maith yn Eglwys Tŵr-gwyn, Bangor. Y mae'n ysgolhaig wrth reddf a buom yn ffodus unwaith eto i gael gweinidog â doniau mor arbennig ganddo yn y maes diwinyddol.



*Y Parchg Glyn Tudwal Jones MA*

Addysgwyd Glyn ym Mhrifysgolion Bangor a Chaergrawnt; fe'i ordeiniwyd yn 1973 a bu'n gweinidogaethu yn Nyffryn Clwyd, Penbedw a Bangor cyn dod atom i'r brifddinas. Eleni, mae'n dathlu 40 mlynedd o wasanaeth clodwiw yn y weinidogaeth ac rydym yn ei longyfarch yn galonnog am hynny. Buan iawn y daeth yn adnabyddus fel pregethwr o safon uchel, a gwyddom yn y Crwys am ei allu i saernïo pregeth yn grefftus a chryno gan roi inni neges gyfoes a heriol bob tro. Cawsai brofiad o weinidogaethu mewn cymunedau trefol a dinesig am flynyddoedd lawer cyn dod i Gaerdydd, a bu hynny'n gymorth iddo ddod i adnabod ei braidd ac i'w bugeilio'n ofalus fel gweinidog eang ei ddiddordebau.

Gwasanaethodd Glyn mewn sawl swydd yn y Cyfundeb – yn Olygydd *Y Goleuad* am chwe mlynedd, yn Ddarlithydd Davies ym 1997 ac yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol ym 1999-2000. Cyhoeddodd gyfrolau ac erthyglau defosiynol a diwinyddol diddorol, gan gynnwys *Croesi'r Mileniwm: Cadw'r Ffydd* (1998) a *Ffordd Bywyd: Llawlyfr i Gristnogion Ifanc* (2003), dwy gyfrol sy'n werth eu darllen a myfyrio ar eu cynnwys. Yn ei swydd yn Gadeirydd Panel Athrawiaeth ac Addoli'r Cyfundeb Presbyteraidd bu hefyd yn gyd-olygydd y *Llyfr Gwasanaethau* diwygiedig yn 2009. Prin fod angen imi restru ei swyddi a'i weithgarwch mewn sawl maes arall, ynghyd â'r Henaduriaethau y gwasanaethodd ynddynt, gan gynnwys Henaduriaeth Morgannwg Llundain.

Yng ngwaith yr eglwys yma yn y Crwys, fodd bynnag, y gwelsom ôl ei lafur yn bennaf, ymhlith ei braidd a'r holl weithgareddau y bu'n cyfrannu gymaint iddynt ac yn eu cefnogi, fel y Gymdeithas, y Gorlan, y Cwmni Drama (bron iddo ennill Oscar fel actor!) y Cylch Cymorth, Ysgol Sul y plant ac Astudiaeth Feiblaidd. Mewn cylch ehangach bu'n gefnogol i Gyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd ac yn gyfaill da i'w gyd-weinidogion ac aelodau o enwadau eraill. Ar nodyn mwy personol gallaf dystio i'r fendith a gafodd nifer fach iawn ohonom dros y blynyddoedd yn ei gwmni yn y Cylch Eglwysig ar nos Iau – y paratoi manwl a dysgedig ar hanes y Beibl a phynciau amrywiol ynglŷn â'r Eglwys Gristnogol yn y byd cyfoes. Ar yr achlysuron hynny dangosodd ei ddawn i gyflwyno'i sylwadau wythnosol yn drefnus a dealladwy.

Am gefndir Glyn beth allaf ddweud mwy na bod ganddo un cymhwyster arbennig, sef iddo gael ei eni yn Hen Golwyn ar gyrion Dyffryn Conwy, yr ardal orau yng Nghymru i ambell un ohonom, ac rwy'n falch o gael dweud fy mod innau'n rhannu'r un etifeddiaeth ddiwylliannol ag ef gan imi gael fy ngeni yng ngwaelodion y dyffryn hwnnw. Gwyddom oll am ei ffyddlondeb i'w alwad, ei hynawsedd, ei gyfeillgarwch a'i gwmnïaeth gynnes. Mawr oedd ein braint o'i gael yn weinidog arnom ac rydym oll, yn Eglwys y Crwys ac eglwysi Cymraeg eraill y brifddinas, yn diolch iddo am ei wasanaeth ac yn dymuno iddo ef a'i briod, Delyth, bob bendith, iechyd a dedwyddwch ar ei ymddeoliad. Ni fydd yn ddieithr inni gan ei fod wedi cytuno i'n gwasanaethu yn Eglwys y Crwys ambell Sul yn y flwyddyn sydd i ddod. Diolch yn fawr iawn Glyn, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**Yr Athro Dr John Gwynfor Jones**

# *Fedrwch chi fynd heb y ddiod am 31 diwrnod?*

Yr elusen Alcohol Concern sy'n ein herio i gael mis crwn cyfan heb ddiferyn o win na chwrw.

Rydym ni i gyd yn gyfarwydd â'r lluniau brawychus o ganol Caerdydd gyda'r hwyr, wrth i filoedd o bobl yfed eu ffordd i ebargofiant ar hyd Heol Eglwys Fair.

I lawer ohonom ni, dyma'r enghraifft waethaf o feddwdod yn y brifddinas. Ond pan holodd Alcohol Concern 1,000 o bobl yng Nghymru am eu harferion diota, dywedodd 50% mai gartref y bydden nhw'n yfed bob tro. Yn wir, mae tuedd fwyfwy i ni fwynhau ein halcohol ar y soffa yn hytrach nag yn y dafarn. Ac yng nghlydwch y tŷ, hawdd iawn yw colli cyfrif ar faint sy'n mynd lawr y lôn goch.

Dyna un rheswm mae'r elusen Alcohol Concern yn herio pobl ar draws y wlad i roi heibio'r ddiod am fis crwn cyfan – Ionawr Sych. Dyma gyfle i hepgor yr hen gur pen, arbed ychydig o arian, a cholli ychydig o bwysau. Bydd gennych fwy o amser a mwy o egni ar gyfer pob math o bethau newydd a diddorol. Yn bwysicach oll, bydd Ionawr Sych 2014 yn gyfle i ni i gyd ystyried faint rydyn ni'n ei yfed a pham, ac i ddod allan o unrhyw hen arferion gwael. Yn 2013, ymunodd 4,000 o bobl ag ymgyrch Ionawr Sych, a dwedodd 80% wedi eu mis sych y bydden nhw'n yfed llai o alcohol o hynny allan



*Y moctêl symla?*

Nid annog pawb i roi'r gorau i ddiota am byth yw'r nod, ond cyfle yw hyn i weld sut mae ein bywydau cymdeithasol heb alcohol. Os ydych chi'n barod i dderbyn yr her, gallwch chi neidio ar y wagen, a gwneud y cyfan yn Gymraeg yn www.dryjanuary.org.uk/cymraeg/.

I gael gwybod mwy, cysylltwch ag Alcohol Concern Cymru ar acwales@alcoholconcern.org.uk neu 029 20226746.

**Dalier sylw:** Nid rhaglen ddadwenwyno feddygol yw hon, ac ni ddylai pobl sydd â phroblemau dibyniaeth ar alcohol geisio ei dilyn.

**Andrew Misell**

# MERCH Y DDINAS

## Colofn Fwytai


*Lowri Haf Cooke*

Gair yn gyntaf i ddiolch yn fawr i bawb â gysylltodd i ddymuno'n dda, wedi i mi brofi damwain car cas ar gyrion Llanbedr Pont Steffan ar ddiwedd mis Hydref. Rwy'n falch i ddweud mod i'n gwella'n raddol ac yn cryfhau pob dydd, diolch i ofal gwych y meddygon a 'nheulu. Rhaid dweud mod i'n edrych ymlaen at gael mwynhau prysurdeb mis Rhagfyr wedi cyfnod o encil llwyr.

A sôn am fis Rhagfyr, dwi am ddechrau fy ngholofn fwytai gyntaf wrth ddechrau â phwnc a allai swnio braidd yn anhymhorol, wrth ddenu'ch sylw at y bwytai gorau hynny sy'n cynnig bwyd i lysieuwyr.

Fel cig-garwraig o fri, rwy'n edrych ymlaen at gael twrci ddydd Nadolig, a'r *Beef Wellington* traddodiadol ar Ŵyl San Steffan. Ond gyda'r holl loddesta sydd o'n blaenau, rhaid dweud y bydd ambell bryd ysgafnach â blas gwahanol yn atynidadol iawn.

Cysylltodd ffrind i mi o Ddulyn wythnos ddwethaf i ddweud ei bod hi'n ymweld â Chaerdydd cyn hir, gan holi tybed hoffwn i gwrdd â hi am bryd bwyd. Gan wybod nad yw hi'n bwyta cig o gwbl, trois yn syth at adran fwyd llysieuol fy nghyfrol *Canllaw Bach Caerdydd*, er mwyn cael tamaid bach o ysbrydoliaeth. Yma, mi ranna i chi dri o fy ffefrynnau personol i - ond trowch at y gyfrol, am ragor o syniadau, da chi!

Tra ar ymweliad lled-ddiweddar â Dulyn, fe nghyflwynwyd i gan Anna i bleserau Rustic Stone - bwyty gwych, sy'n cynnig bwydlen gwbl gyfoes, yn pwysleisio cynnyrch lleol, organig a thymhorol - ac sy'n gweini cyfuniad o seigiau cig, ar y cyd â phrydau llysieuol. Dwi'n falch iawn i ddweud fod gyda ni le digon tebyg yn ardal Adamsdown y ddinas, sef bwyty **The Canteen on Clifton Street**. Cymerais gip ar eu bwydlen Nadolig a rhaid dweud fod pob un pryd bwyd yn denu dŵr i'r dannedd - yn arbennig y ravioli pwmpen ac amaretti a weinir â saws menyn lemwn a saets.


*Lowri yn Lolfa'r Milgi*

Bwyty arall sy'n dangos yr un parch at lysieuwyr ag at gig-garwyr o fri yw bwyty newydd sbon **The Grazing Shed**, yng nghanol y ddinas. Sefydlodd Duncan Black y cantina hamddenol hwn dafliad carreg i ffwrdd o'i glwb nos Gwdihŵ ger Cilgant Guildford, gyda'r bwriad o weini byrgyr gorau'r brifddinas. Y mae'r fwydlen yn un eang, ac yn cynnig sawl dewis llysieuol. Y *Naughty Shepherd* sy'n denu fy chwilfrydedd i ar gyfer fy ymweliad nesaf â'r bwyty, sef byrgyr llysieuol gyda *fondue* caws gafr wedi'i daenu â mêl, siytni seidr afal, berwr y gerddi a *boom boom mayo*.

Ond i mi, fel merch o'r Rhath, rhaid dweud mai bar a bwyty **Milgi** ar Heol y Ddinas sy'n mynd â hi bob tro i mi, diolch i goctels blasus, awyrgylch cŵl, a chroeso Cymraeg gan y chwiorydd Becky a Gaby Kelly o Aberaeron.

Profodd eu bwydlen lysieuol bob nos Lun mor boblogaidd nes iddynt benderfynu gwahardd cig yn llwyr. Mae eu bwydlen Nadolig - sydd hefyd yn addas i figaniaid - yn gwneud defnydd o gynnyrch masnach deg, ac mae'r dewis yn pwysleisio cyfuniadau gwreiddiol o flasau atyniadol. Rwy'n tybio mai'r caws haloumi Groegaidd wedi'i grilio a'i gyflwyno â chorbys sinamwn a reis almwnd a datys, wedi'i ddilyn gan bwdin bara menyn a banana gyda saws caramel blas rym fydd fy newis i, wedi'i olchi lawr â'r hen ffefryn - y Chilli Mojito.

Gobeithio fy mod wedi ysbrydoli ambell un i ystyried pryd bwyd gwahanol dros gyfnod yr Ŵyl. Gan ddymuno Nadolig llawen - ac nid rhy llawn - i chi gyd!

*Canllaw Bach Caerdydd*, Lowri Haf Cooke, £9.99 (Gwasg Gomer)

**Lowri Haf Cooke**



# Ysgol y Wern

Llongyfarchiadau i Rhodri Thomas, disgybl ym Mlwyddyn 6, am gael ei ddewis i chwarae rygbi i Ysgolion Caerdydd. Pob lwc i ti yn ystod y tymor. Llongyfarchiadau hefyd i Alys Gwynedd, disgybl ym mlwyddyn 6, sydd wedi ennill cystadleuaeth creu llun i'r calendr Cydraddoldeb Hiliol.

Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen gyda phlant yn prynu a gwerthu cacennau. Codwyd £905.00 yn ystod y diwrnod a braf oedd gweld enw'r ysgol yn ymddangos ar sgrin y BBC. Hoffai'r ysgol ddiolch i bawb am eu cyfraniad.

Mae disgyblion yr ysgol wedi bod wrthi fel lladd nadroedd yn ddiweddar yn paratoi bocsys yn llawn nwyddau a fydd yn cael eu dosbarthu i blant yn Romania cyn y Nadolig. Casglwyd dros dri chant o focsys ar gyfer yr achos da yma. Yn ystod y tymor hefyd codwyd £580 i elusen cancr George Thomas.

Gwnaeth grŵp o blant gymryd rhan ar lwyfan Y Lanfa yng Nghanolfan y Mileniwm cyn seremoni wobrwyo ffilmiau 'Media4Schools'. Bu'r plant yn perfformio ystod o ganeuon gan gynnwys caneuon o'r sioe T. Llew Jones.



*Disgyblion Ysgol y Wern a'u hanrhegion i blant Romania*

Ffilmiwyd côr yr ysgol yn Eglwys y Tabernacl ar gyfer cystadleuaeth 'Carol yr Ŵyl' ar gyfer y rhaglen 'Prynhawn Da' ar S4C. Cyfansoddwyd y garol 'Noswyl Nadolig' gan Mair Long ac edrychwn ymlaen at weld y plant yn ymddangos ar y teledu ym mis Rhagfyr.

**Nia Jones**

## • Llythyr • Llythyr • Llythyr • Llythyr •

Annwyl Olygydd,

Trist oedd darllen yn Y Dinesydd (Tachwedd 2013) am farwolaeth Mrs Jane Clee a oedd ymhell dros ei nawdeg oed. Cofiaf am Jane o'r 1930au cynnar fel Jane Powell Penlan Fach, uwchben Ystalyfera, pan yr oedd yn helpu fy Anti Annie ar fferm Pantygwanyd gerllaw. Wedyn, pan ddes i Brifysgol Caerdydd yn 1943 a lletya yn Colum Road, cefais Jane a'i gŵr Trevor Clee yn byw mewn tŷ cyfagos. Yr oedd Trevor o deulu cerddorol Clee, Ystalyfera (ceir 'Ysgoloriaeth Cerdd Clee' gan Brifysgol Cymru).

Yr oedd Jane Clee yn boblogaidd ymlith ei chymdogion yn Colum Road gan gynnwys y crotyn Byron a oedd yn hoffus drwy ei ddrygioni, 'Roedd Byron yn fab i forwr Groegaidd a oedd yn briod a'r ferch drws nesaf i Jane. Cofiaf weld y cerfiad o'i enw gan y bardd Byron ar garreg ym Mhenryn Sounion ger Athen; hy, gweithred tebyg i un fy nhad ryw ben cyn 1910 yn cerfio ei enw J Thomas wrth ochr y ffynnon ym mhen draw ogof Castell Carreg Cennen - a'i wyres Bethan yn ei ddarganfod yn ddiweddar - tua gan mlynedd wedyn!

Nes ymlaen, daeth Jane yn ffrind i'm priod Gwyneth wrth inni gartrefu yn y Waun Ddyfal ar gychwyn y 1950au, pan rannodd Jane y newydd iddi hithau a Trevor ddod yn rhieni



*Gwyneth Thomas ar ei phenblwydd yn 86 ar 5 Tachwedd 2013 gyda dau o'n pump gor-wyr*

o'r diwedd. Ar enedigaeth Elaine Clee, tynnodd Gwyneth sylw Jane at yr Ysgol Feithryn yng Nghapel Heol y Crwys. Trefnodd Jane a Trevor i'w plentyn Elaine gychwyn ar ei addysg Gymraeg yn yr Ysgol Feithryn, a dyna gychwyn ar gyfraniad Jane Clee i addysg Gymraeg yng Nghaerdydd.

Pan ddychwelodd Gwyneth a mi a'n plant 'nôl i Gaerdydd o Lundain ym 1958 a Gaenor yn bump oed ac yn mynd i Ysgol Bryntaf, dyma ddod ar draws Jane Clee eto - yn gweinyddu dros ginio canol dydd i'r dysgyblion. Bu Jane yn Ysgol Bryntaf am dro; hithau yn ceisio sicrhau i'r plant fwyta eu bwyd, tasg anodd yn aml - cofiwn i Jane ddweud wrth Gwyneth am Gaenor (ein merch hynaf) "Dyw hi ddim yn bwyta dim!" Beth bynnag, mae'n amlwg i berswâd Jane Clee lwyddo yn y diwedd - pan oedd Gaenor ar daith Ysgol Rhydfelen gyda Huw Thomas i wlad Groeg yn 1970 fe'i galwyd yn "Rubber Guts" gan iddi fwyta popeth yn ystod y daith – a hithau a'i chwaer oedd yr unig rhai na fu'n sâl!

Breintiwyd Elaine Clee â llais swnol a chofiaf ei thad, Trevor, yn ei thywys yn Eisteddfodau lleol yr Urdd - ac yntau fel Jane yn falch ohoni fel tywysoges eu haelwyd. Yna tua thair blynedd yn ôl digwyddodd ein ffrind Mair Margaret (perchennog y siop *fancy goods* ar Stryd y Castell, Caerdydd) alw arnom yn y Gresffordd, a thrwy sôn am y dyddiau cynt, clywsom wrth Mair i'w ffrind Elaine fod yn driw ei gofal dros ei mam, Jane Clee.

A dyma ni 'nawr, ar ôl sawl blwyddyn arall, yn darllen yn Y Dinesydd am farwolaeth Jane; nid bellach o Colum Road, ond o Ystum Taf, a hithau siŵr o fod yn tynnu at 100 oed. Cydymdeimlwn ag Elaine a dymunwn bob bendith iddi hithau a'i theulu.

Braint oedd adnabod Trevor a Jane Clee. I gloi, cofiaf mai ym Mhenlan Fach (cartref genedigol Jane) - a minnau heb gyrraedd 10 oed - y cefais, gan frawd Jane, fy sigaret cyntaf - a bron â thagu. Tyfais i gadw draw o smygu - a thra yn y fyddin yn yr Ail Ryferl Byd byddwn yn cyfnewid fy nghyfran sigaretau am siocled oddi wrth filwyr eraill.

**J D R (Ron) Thomas, Gresford (gynt o Gaerdydd)**

# AELWYD HAMDDEN CYMRY CAERDYDD

Mae rhaglen yr Aelwyd yn mynd rhagddi yn hwylus iawn gydag amrywiaeth testunau a gweithgareddau.

Ar ddechrau'r tymor ymwelwyd ag eglwys hynafol Sant Cadog, Llancarfan a rhyfeddu at y peintiadau canoloesol rhagorol. Prif thema'r lluniau yw Sant Siôr a'r ddraig. Hefyd cafwyd hanes yr eglwys a'i chysylltiad â Iolo Morgannwg. Gorffenwyd y daith ag ymweliad â'r Bontfaen.

Mewn prynhawn o "Dod a Dweud" cyflwynodd tri aelod dawnus o'r Aelwyd eu hoff gyfraniadau. Dewis y Parch Haydn Thomas oedd dwy gyfrol ddiddorol. Y cyntaf oedd "Family History in North Carmarthen" gan Gwilym Myrddin, bardd a fynegai ei neges rymus ar destunau fel ryfel a heddwch. Hefyd cyflwynodd gyfrol ar ei ddiddordeb yng nghapel Presbyteraidd Caerfachell ger Tŷ Ddewi, lle bu'n weinidog ar un adeg.

Rhoddodd Elisabeth Gilpin hanes diddorol am ei mam eglwys, sef Bethlehem, Rhosllannerchrugog, eglwys hanesyddol agos at ei chalon gan mai ei thaid gododd y tŵr nodedig a fu'n aelwyd ysbrydol iddi hi pan yn ifanc. Sefydlwyd yr achos ym 1810 mewn capel 13 llath wrth 11 ar dir a brynwyd am £12. Enw arall ar y capel oedd Capel Bychan am fod cysylltiad â'r bardd Ap Fychan. Hefyd, un o enwogion yr eglwys oedd Caradog Roberts.

Bardd ac athro a anwyd yng Nghwm Rhymni oedd testun anerchiad y Parch Allan Pickard. Canai Idris Davies am ddigwyddiadau penodol yn gynnar yn yr 20fed ganrif. Mae'n fwyaf enwog am y gân "The Bells of Rhymney". Cysylltir y gân â'r canwr gwerin Americanaidd Pete Seegar. Yr un prynhawn, braint oedd croesawu Hywel Evans, cyn-aelod ym Minny Street, a soniodd am anghenion gofal am y henoed trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd yr aelodau gyfle i gynnig syniadau i wella'r gwasanaeth hwn.

Pennaeth Materion Cyhoeddus RSPB Cymru oedd y siaradwr gwadd ddiwedd Hydref. Pleser oedd gwrando ar ei wybodaeth eang am hanes adar o bob math. Ei neges oedd pwysigrwydd rhoi cartref i fyd natur yn ein gerddi, gan fod sawl math o adar yn diflannu o Gymru oherwydd nad oes lle iddynt nythu, na digon o fwyd naturiol ar eu cyfer. Un plentyn o bob wyth yn unig sydd â diddordeb ym myd natur. Ei neges oedd "mae angen natur ar blant ac angen plant ar natur."

Elin Wyn Williams, arlwywraig a pherchen siop "Bant a la Cart" Pontcanna, oedd y gwestai ddechrau mis Tachwedd. Paratodd fwydydd amrywiol addas ar gyfer y Nadolig a rhoi cyfle i bawb flasu o'r cyfan.'Roedd ei dawn a'i chyflwyniad byrlymus wrth fodd pawb.



*Elin Wyn Williams*

Ddiwedd Tachwedd croesawyd dwy gerddores ryfeddol o ddawnus i ddiddori'r gynulleidfa, sef Bethan Semmens (telyn) a Joy Cornock (soprano), y ddwy yn gyn-fyfyrwyr yng Ngholeg Cerdd a Drama Caerdydd. Erbyn hyn mae'r ddwy yn berfformwyr llwyddiannus sy'n rhannu ei dawn ledled y



*Bethan a Joy*

wlad mewn cyngherddau ac hefyd - dan gynllun Live Music Now - yn ymweld â chymdeithasau, sefydliadau fel cartrefi henoed ac ysgolion; cynllun a drefnir gan y gyfarwyddwraig, Gillian Green, Llandaf. 'Roedd eu dewis yn eang o Mozart, Puccini, Benjamin Britten ac Andrew Lloyd Webber i alawon gwerin a thraddodiadol Cymru. Edmygwyd eu dawn arbennig iawn a'u cyflwyniad naturiol a serchog gan bawb.

**Robin Brown**

## Y GORNEL DDARLLEN

# Dewis Difyr Dros Ben

I bob pwrpas, teulu bach digon di-nod o Gymry Cymraeg Caerdydd yw testun nofel newydd Ioan Kidd, *Dewis*. Mae Ioan ei hun wedi byw yn y ddinas ers blynyddoedd lawer erbyn hyn ac wedi gwneud defnydd da o'i berthynas â'i gynefin er mwyn creu ystod o gymeriadau realistig iawn sy'n ennyn ein diddordeb a'n chwilfrydedd o'r tudalennau cyntaf oll. Fodd bynnag, o dan wyneb cartrefol a maestrefol teulu bach Mari, prif gymeriad y nofel, mae trobyllau anweledig yn corddi.

Mae'r stori yn dechrau ar ddiwrnod pen-blwydd Mari yn drigain oed ac yn fuan rydym yn cwrdd â rhai o'r prif gymeriadau: Mari ei hun, ei phlant, ei hwyrion, ei gŵr, Michael ... a'i chyn-ŵr Ifor. Yn grefftus iawn mae'r awdur yn gwau ynghyd y presennol a'r gorffennol fel bod y darllenydd, fel pe mewn gêm 'pasio'r parsel' gyffrous, yn datod haen ar ôl haen ddeniadol – a syfrdanol – o'r hanes. Clywn fod seiliau bywyd Mari wedi cael eu siglo ddwywaith. Unwaith chwarter canrif yn ôl ac unwaith eto yn y presennol. Y cwestiwn mawr yw a fydd ganddi'r nerth i wneud y dewis iawn?




Nofel gyfoes yw hon sy'n frith o bynciau llosg y gymuned gyfoes. Mae'r themâu hyn yn ymddangos yn effeithiol fel rhan naturiol o fywyd teulu arferol ... ond teulu arferol sy'n wynebu heriau anarferol. Cawn ein hannog i edrych y tu hwnt i glymau teuluol traddodiadol, cyffredin, ac i ailystyried y perthnasau llai amlwg sy'n rhan o wead cymhleth teuluoedd modern.

Er bod y nofel yn un ddeniadol a hawdd i'w darllen, mae hi'n cynnig gweledigaeth dreiddgar ac yn codi cwestiynau dyrys a fydd yn aros ar gof y darllenydd ymhell ar ôl cau'r clawr am y tro olaf.

**Mair Rees**

*Dewis*, Ioan Kidd, Gwasg Gomer £8.99

# Newyddion o'r Eglwysi

## Bethel, Rhiwbeina

Yn ystod mis Tachwedd croesawyd yn ôl i'n plith ein gweinidog, y Parch Evan Morgan, ar ôl cyfnod o salwch; Nerys Smith, ar ôl iddi dderbyn llawdriniaeth yn Ysybty'r Mynydd Bychan, a'i chwaer Iola James a gafodd lawdriniaeth mewn ysbyty yn Ffrainc wedi damwain tra ar wyliau yno.

Cydymdeimlwn â Wyn Jones a'i deulu yn yr Eglwys Newydd ar golli ei fam, Sara Jones, yn Ffarmers, Llanwrda ar 22 Tachwedd.

**Gwilym Roberts**

## Salem, Treganna

*Bedydd*

Bedyddiwyd Siôn Emlyn ar 24 Tachwedd, mab Lowri a John Gwyn. Llongyfarchiadau mawr i chi fel teulu.

*Penwythnos y Bobl Ifanc*

Cafodd criw o bobl ifanc Salem benwythnos i'w gofio yn Nhalybont ar Wysg ganol Tachwedd. Yng nghwmni swogs chweched dosbarth Salem, cafodd bawb gyfle i ganŵio ddydd Sadwrn a mynd ar daith gerdded. Gyda'r nos roedd cyfle i gymdeithasu, gwylio fideos a chwarae gemau, ac fe lwyddodd rhai i gael rhai oriau o gwsg hefyd! Diolch i bawb oedd yn ymwneud â'r daith; roedd yn benwythnos hyfryd wrth i'r bobl ifanc gael profiadau amrywiol a gwerthfawr.

*Adran yr Urdd Salem*

Cafwyd noson o ddawnsio gwerin yn yr adran yn ogystal â noson yng nghwmni Ed Holden.

*Clwb Brecwast a'r Clwb Llyfrau*

Cyfarfu'r clwb brecwast ddwywaith yn ystod y mis, ac fe ddaeth y clwb llyfrau at ei gilydd i drafod 'Y Teyrn' gan Gareth Williams.

*Grŵp Canu*

Mae'r grŵp canu wedi bod yn ymarfer yn ddyfal ar gyfer eu porffermiadau nesaf. Edrychwn ymlaen yn fawr!

*Bore coffi Cymorth Cristnogol*

Cynhaliwyd bore coffi Cymorth Cristnogol yn Salem fore Sadwrn 23 Tachwedd.

*Oedfaon y Nadolig*

Croeso mawr i chi ymuno â ni yn ystod mis Rhagfyr i ddathlu'r Nadolig:

15 Rhagfyr - 10.30 Gwasanaeth yr Ysgol Sul, a Gwasanaeth y Goleuni am 6

22 Rhagfyr - 10.30 Gwasanaeth llith a charol

24 Rhagfyr - 11.30pm Cymun a charolau

Bore Nadolig - 9.30 gwasanaeth anffurfiol, teuluol. Dewch a'ch teganau i ddangos i Evan!

Croeso cynnes i bawb.

**Matthew Evans**



*Dyma griw pobl ifanc Salem yn mwynhau penwythnos yn Nhalybont ar Wysg*

## Eglwys y Crwys

*Cydymdeimlo*

Gadawyd bwlch enfawr yn Eglwys y Crwys pan fu farw Mr Garwyn Davies. Bu'n aelod a blaenor ffyddlon am flynyddoedd lawer ac yn weithiwr tawel di-flino ymhob agwedd o fywyd yr Eglwys. Gŵr addfwyn, boneddigaidd, yn gyfaill i bawb ac yn Gristion cywir. Roedd yn fawr ei barch gan bawb a gwelir ei eisiau. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Non, Ceri ac Angharad a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Bu i Eglwys y Crwys golli aelod arall hefyd pan fu farw Miss Avril Thomas, Cyncoed, cyn-nyrs a bydwraig, ar y 9fed o Dachwedd. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar yr 22ain o Dachwedd. Ein cydymdeimlad llwyraf â'i brawd Wyn a'r teulu.

*Y Gorlan*

Cafwyd sgwrs hynod ddiddorol gan Mrs Mair Robbins a ddaeth i 'Hel Atgofion'. Ddiwedd Tachwedd aeth yr aelodau ar daith o amgylch yr Amgueddfa Genedlaethol o dan arweiniad Mrs Ann Saer. Cafwyd gwledd i'r llygad a mwynhawyd y prynhawn yn fawr iawn.

*Y Gymdeithas*

Cynhaliwyd cyngerdd gyda Chôr Meibion Tâf gyda'r elw yn mynd tuag at Yr Ystafell Fyw. Noson gwerth chweil a diolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y noson. Cafwyd Gwasanaeth Nadolig bendithiol dros ben hefyd o dan arweiniad Mr Gareth Rhys Davies. Diolch i bawb o'r aelodau a gymerodd ran.

*Y Grŵp Merched*

Gwledda a chymdeithasu fu hanes y Grŵp Merched ddechrau Rhagfyr yn eu Swper Nadolig. Cafodd pedwar o ddynion dewr y fraint o weini arnynt! Yn dilyn y wledd cafwyd darlleniadau gan y Dr Diana Evans a Mrs Nans Couch ynghyd â chyd-ganu carolau o dan arweiniad Mrs Gwen Edwards gyda Mrs Glenys Thomas wrth y piano. Diolch i aelodau'r pwyllgor am y trefniadau.

*Y Gymdeithas Ddrama*

Cymerodd y Gymdeithas Ddrama ran yn y gyfres 'Am Ddrama' gyda'r canwr opera Wynne Evans, a ddarlledwyd ddiwedd Rhagfyr. Llongyfarchiadau cynnes i'r aelodau. Bellach maent yn brysur yn paratoi at

eu cynhyrchiad nesaf, sef panto o waith Alun Tiplady – *Sinderela* ar ei newydd wedd!

*Yr Ysgol Sul*

Llongyfarchiadau i'r plant ar Wasanaeth Nadolig hyfryd – pob un ohonynt yn gwneud eu gwaith gyda graen. Diolch yn fawr i Mrs Sian Griffiths, athrawon a rhieni am eu gwaith caled gyda'r paratoadau.

**Nans Couch**

# Eglwys Dewi Sant

*Cymdeithas Nos Iau*

Cafwyd noson bleserus iawn yn blasu a phrynu bwyd yn siop Cook ddiwedd Hydref ac fe godwyd arian at gronfa adnewyddu'r eglwys ar yr un pryd.

*Dathlu pen-blwydd*

Ar 30ain Hydref roedd y Parch Ddr Vernon Davies yn naw deg naw oed a ac fe nodwyd yr achlysur gyda pharti bach ar ôl y gwasanaeth y bore hwnnw. Os yw'n fach o gorff mae'r Doctor Vernon yn gawr o bersonoliaeth ac yn ein difyrru bob amser gyda'i straeon o'r cyfnod pan oedd yn yr ysgol gyda Dylan Thomas, ei amser yn gweithio yn y Bahamas neu wrth y llyw yn hedfan awyren i dde Ffrainc. Edrychwn ymlaen at barti mwy y flwyddyn nesa ond i Dr Vernon a'i ferch Lisa 'roedd un eleni yn fythgofiadwy.

*Cydymdeimlo*

Fel eglwys 'rydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant iawn gyda:

Mrs Eryl Thomas a'r teulu am golli mam Eryl, Mrs Ceinwen Hopkins

Yr Athro David Wyn Jones, Anne a Yolande ar farwolaeth tad David, y Dr Arthur Jones.

*Diwrnod Tawel*

Ar drothwy'r Adfent cynhaliwyd diwrnod tawel o dan y teitl Disgwyl yr Iôr i roi cyfle i bobl ymdawelu, canolbwyntio ar wir ystyr yr adfent a pharatoi'n ysbrydol am y Nadolig. Fframwaith y dydd oedd tri myfyrdod sef Disgwyl, Paratoi ac Aros ac fe gafwyd diwrnod bendithiol iawn.

**Dawn King**

# Ebeneser

*Darlith Goffa y Parch Emlyn Jenkins*

Ar 12fed Tachwedd cynhaliwyd darlith goffa gyntaf y Parch Emlyn Jenkins, un o gyn-weinidogion Ebeneser. Braf oedd cael croesawu'r Parch R Alun Evans atom. Testun ei ddarlith oedd heddychiaeth a thynnodd ar hanes ei dad, a orfu mynd i'r Rhyfel Mawr er ei fod yn heddychwr. Ei obaith yw y byddwn yn 2014, ar adeg canmlwyddiant dechrau'r rhyfel, yn dathlu heddychiaeth.

*Bore coffi*

Ar fore Sadwrn 23ain Tachwedd cynhaliwyd bore coffi Cymorth Cristnogol yn Salem, Treganna. Braint i Ebeneser oedd cael bod yn rhan unwaith eto o'r ymgyrch i godi arian ar gyfer gwaith yr elusen ymysg tlodion ein byd. Stondin nwyddau ystafell molchi oedd gennym, ond gwerthwyd addurniadau cartref Nadolig hefyd. Cyfranwyd rhodd o gwilt, gan ffrind i Brenda Jones fu'n trefnu'n ddiwyd. Cyfanswm y stondin ar y dydd oedd £450.

*Pilipinas*

Dros ddau Sul y 17eg a'r 24ain penderfynwyd bod y casgliad rhydd yn mynd tuag at drychineb fawr Ynysoedd y Pilipinas. Anfonwyd £750 fel cyfraniad a diolchwn am waith Tear Fund a Chymorth Cristnogol wrth iddynt gydweithio ag elusennau eraill i geisio lleddfu ar y dioddef a'r angen, dan adain y DEC.

*Bocsys Operation Christmas Child*

Daeth cyfle eto eleni i anfon bosys anrhegion i blant ac ieuenctid tlawd Dwyrain Ewrop drwy'r elusen hon. Aeth tua 25 o focsys o'n plith i'r ganolfan gasglu drwy law Gwenda Lewis ac Arwel Peleg Williams.

**Tudur Jones**

# Minny Street

*Bedydd*

Hyfrydwch fu tystio i fedydd Mari Gwenllïan Hughes, merch Meinir a Dewi (Cyncoed) a chwaer fach i Leisa a Dafydd, yn yr Oedfa Gymun ym mis Tachwedd.

*Aelod Newydd*

Hyfrydwch pellach oedd croesawu Awen Iorwerth (Pontcanna) yn aelod atom yn yr un oedfa.

*Dewch i gerdded llwybr yr Adfent*

Eleni, er mwyn ein helpu i baratoi'n ddilys at y Nadolig, cynigir cyfres o fyfyrdodau byrion bachog fydd yn ymddangos yn ddyddiol hyd at ddydd Nadolig ar @MinnyStreet. Os ydych yn ddefnyddiwr Trydar (ac mae'n hawdd iawn agor cyfrif) beth am ein dilyn neu, os mynnwch, anfonwch y neges TAITH ADFENT gyda'ch enw at Owain Llŷr ar 07887-365106.

*Y Gymdeithas*

Cafwyd noson gofiadwy gan Aled Gwyn, un o'n cyd-aelodau, yn trafod bywyd a gwaith ei ffrind Waldo Williams. Bu Aled yn adrodd darnau helaeth o'i farddoniaeth a chafodd werthfawrogiad twymgalon gan gynulleidfa oedd yn llenwi Festri Minny Street.

*Hawl i Holi*

Fe gafwyd noson o ***Hawl i Holi*** i ddarganfod barn tri o'n haelodau, Carys Evans, Dyfrig Parri a Llŷr Gwyn Lewis, ar bynciau fel 'Cynyddu nifer aelodau'r Cynulliad', 'Pum peth a wnaethoch i hybu'r Gymraeg yn ystod y dydd', 'Sut i gofio'r Rhyfel Mawr', 'Ffioedd myfyrwyr o Gymru sy'n astudio tu allan i'w gwlad' a 'Pan fyddaf yn 75 oed!'. Diddorol iawn.

*Bethania*

Thema'r tymor yma yw *Natur Duw a natur dyn* ac roeddem yn trafod 'Beth ydym ni?' *Mwy da na drwg* - pobl â dymuniad i fod yn anhunanol a gwneud gwaith da, neu *Mwy drwg na da* - pobl â dymuniad i fod yn hunanol ac i wneud gweithredoedd drwg neu *Perffaith* - gwneud yr hyn sy'n gariadus, yn dda a chywir, bob amser, yn ddi-ffael. A ydym yn *Doredig* neu'n *Niwtral?* Anaml y daw cyfle i drafod y cysyniad o bechod gwreiddiol ond fe gawsom gyfle, o dan arweiniad ein Gweinidog. Roedd amrywiaeth barn ond pawb yn gwerthfawrogi'r cyfle i drafod pwnc mor ddyrys.

*Bydd wrth ein Bwrdd*

Y mis yma: yn lle ac ar ba bryd yr ydych yn teimlo agosaf at Dduw? Ar lan y môr, mewn gardd neu ar fynydd, Capel Mair yn Eglwys Gadeiriol Llandaf a Thŷ Ddewi, Capel Maes-yr-onnen ym Mhowys, ogof Cwmhwplyn ym Mhencader. Y farn unfrydol oedd na ellir, mewn unrhyw fodd, drefnu bod Duw yn agos! Da a buddiol yw'r seiadau hyn dros damaid o fwyd.

*Myfyrdodau*

Cofiwch am fyfyrdodau wythnosol ein gweinidog yn y gyfres o Funud i Feddwl sydd ar ein gwefan. Mae'r ddau fyfyrdod misol gan ein gweinidog yn ymddangos ar ein gwefan www.minnystreet.org.

*Pregethau'n gweinidog*
Cofiwch fod crynodeb o bob pregeth wythnosol ein gweinidog ar ein gwefan ac mae llyfr o grynodebau ei bregethau o fis Medi 2012 tan fis Gorffennaf 2013 ar gael am £10 gan ein Hysgrifennydd. Mae'r arian yn mynd at Apêl Haiti Cymorth Cristnogol.

**Peter Gillard**

# Y Tabernacl

*Bore Coffi Mercher.*
Diolch i Mari Rogers am ei chroeso fis Hydref. Daeth cyfle i ni ymweld ag aelwyd Sian a Huw Thomas ddiwedd mis Tachwedd.

*Cymdeithas Nos Fawrth*
Gwerthfawrogwyd noson hyfryd yng nghwmni Nia Roberts o'r BBC fel y cyntaf o nifer o nosweithiau a drefnwyd gan Rob Nicholls, Rhys a Rhodri ab Owen.

*Cymdeithas y Chwiorydd.*
Yn dilyn y cyfarfod agoriadol dan arweiniad y Gweinidog, mwynhawyd sgwrs gyda Gwenallt Rees yn sôn am ei fagwraeth yn Llansteffan, ac ymweliad gyda Chymdeithas Chwiorydd Ebeneser. Noson o Frethyn Cartref oedd y cyfarfod nesaf gyda Beryl Eurig, Mary Thomas a Val Simpson yn cynnal y cyfarfod.

*Cerddoriaeth yn yr eglwys*
Ar ben y dathliadau daugan-mlwyddiant mae nifer o ddigwyddiadau cerddorol yn mywyd yr eglwys y mae'n werth eu cofnodi. Yn gyntaf, datganiad organ Meirion Wynn Jones, Caerfyrddin, ar 19 Hydref eleni. Mae Meirion yn enwog fel organydd, cyfeilydd a chyfansoddwr. Enillodd Dlws y Cerddor yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro 2011. Clywsom organ 'newydd' y Tabernacl yn ei gogoniant, ac fe drodd y capel yn gadeirlan. Digwyddiad nesaf ym myd yr organ oedd yr Organothon: organyddion y Tabernacl yn canu'r organ yn ddi-baid am chwech awr, ddydd Sadwrn, 9 Tachwedd, rhwng 11.00 a 5.00 y pnawn.

Rhagfyr 3 oedd dyddiad cyngerdd blynyddol Cymdeithas Gorawl y Tabernacl, pan berfformiwyd *Atgof o'r Sêr* Robert Arwyn a detholiadau o *Messiah* Handel.

**Gwyn P Jones**

# Bethel, Penarth

Erbyn i rifyn Rhagfyr *Y Dinesydd* ymddangos byddwn wedi cynnal ein gwasanaeth carolau blynyddol (1 Rhagfyr). Mae'r achlysur dwyieithog hwn yn boblogaidd iawn ymhlith aelodau, trigolion lleol a rhieni plant Ysgol Penygarth sy'n cyfrannu. Eleri Roberts a dderbyniodd ein gwahoddiad i'n harwain eleni. Fel arfer, ar ddiwedd y gwasanaeth ceir mins peis i ddynodi dechrau cyfnod yr hwyl.

Achlysur cyfarwydd, cyfoethog arall yw dathliad drama'r Nadolig gan y plant. Heb amharu ar ddwysedd y gwasanaeth, rwy'n siŵr y bydd llawer ohonom yn dawel-obeithio am 'anffawd' o ryw fath.

Hyfryd oedd croesawu 'nôl o'u gwyliau yn Ne Affrica ein cyd-aelodau diwyd Helen ac Alun Daniel. Croeso hefyd i Alys Wyn Phillips, merch Bethan a Darran, mewn gwasanaeth bedydd dan ofal ein gweinidog Kevin. Mae Alys yn wyres i Gwyn Williams, ein cyd-aelod.

Trosglwyddwyd £1000 i Gronfa Arch Noa, gyda'n meddyliau yn troi at Owain Kirkwood, un o'n plant sy'n derbyn triniaeth, a £500 i achos ein brodyr a chwiorydd yn y Pilipinas.

Cynhelir ein gwasanaeth Dydd Nadolig am naw y bore yn y Tabernacl, Y Bari, ein chwaer eglwys yn yr ofalaeth. Ar yr un diwrnod bydd oedfa radio BBC Cymru dan ofal ein gweinidog ac aelodau. Darlledir yr oedfa tua phump y bore neu oddeutu hanner dydd. Am ddewis o ddathlu!

Dymunwn gyfarchion tymhorol i holl ddarllenwyr Y Dinesydd gyda chroeso i chi droi i mewn atom.

**Neville Evans**

# Undodiaid Caerdydd

Mae'n agosáu at dymor y Nadolig a hysbysebion ym mhob man yn ein hannog i wario ein pres yn wirion. Ychydig o sôn sydd inni drin ein teulu, cymdogion a chymdeithas yn fwy gwaraidd. Ychydig o sôn sydd am yr un yr ydym yn dathlu ei ben-blwydd. Tueddu i encilio mae teuluoedd i'w tai er bod miloedd ar eu pennau nhw eu hunain yn ystod yr ŵyl. Er hyn mae criw sylweddol o hyd yn tywyllu drysau ein capeli a'n heglwysi dros yr ŵyl. Mae angen symbolau seren Bethlehem i daflu pelydrau o lewyrch ystyr i'n bodolaeth yng nghanol sŵn a lliwiau'r ffair o'n cwmpas.

Cred yr Undodiaid mai cael ei eni o gnawd fel chi a fi a wnaeth yr Iesu ac mai syniad a ddaeth o'r Eglwys yn nes ymlaen oedd yr enedigaeth berffaith. Mae'r ddiwinyddiaeth Undodol yn nodi bod yr Iesu yn ddynol eto nid yw'r ffaith yma yn ei wneud yn llai arbennig. Credwn fod urddas a pharch ac yn bennaf oll gariad yn rhagoriaeth gwerth ei hefelychu, fel y gwnaeth yr Iesu ei hun yn ystod ei oes unigriw ar y ddaear.

Eleni yr ydym yn dathlu gyda gwasanaethau ar y 8fed a'r15fed o Ragfyr, gyda Gwynn Pritchard a'r Parchg Eric Jones. Ar yr 22ain o Ragfyr yn Nhŷ'r Crynwyr am bedwar, yn hytrach na phregeth, byddwn yn dathlu drwy ganu hen garolau a thrwy uno i adrodd storiâu personol gyda'n gilydd fel teulu dynol.

**Dewi Owen**

# Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd

Ar ddiwedd ein rhaglen am 2013, gwerthfawrogwyd yr amrywiaeth o gyfarfodydd a fu'n gyfle i gymdeithasu ac addoli. Rhannodd y llywydd sef y Parch Dyfrig Lloyd a'r ysgrifennydd, sef y Parch Menna Brown, arolwg o'r arlwy. Bu eu cyfraniad fel swyddogion yn werthfawr, ac wrth iddynt gyflwyno'r awenau i'r swyddogion newydd, diolchodd y llywydd newydd sef y Parch Ddr R. Alun Evans, iddynt am eu gwasanaeth. Bydd y Parch Denzil John yn ymgymryd â dyletswyddau'r ysgrifennydd a gwerthfawrogir bod Mr Delwyn Tibbott yn barod i barhau fel trysorydd. Yn ystod ei adroddiad ef, cytunwyd ein bod yn estyn £200 i gefnogi Apêl y Pilipinas, £100 i gefnogi'r Ystafell Fyw a £100 i hyrwyddo gwaith cyd-eglwysig gyda'r 'Ddrama Nadolig' sy'n defnyddio festri'r Tabernacl eleni eto yn ystod mis Rhagfyr.

**Wyn James**


## DINESAIR Rhif 138

### Ar Draws

1. Bardd, disgybl o ben draw'r Affrig (6)
4. Y rhif yn nhrap Edward (6)
7. Lle tân (8)
8. Gwasgu 3 i'r rhidyll (4)
9. '----- ----- yw dy enw
   Llanw'r nefoedd, llanw'r llawr' (WW) (3,9)
12. Bonheddwr o'r mynydd-dir efallai (6)
13. 'Fy mywyd i, fy ffordd, fy nod
    ------ fy moliant tlawd' (cyf DC) (6)
14. 'A chwiban gwyllt aderyn du
    ----- ----- ----- llinos werdd' (IDH) (1,6,5)
17. Hwn (1,3)
18. Gweledigaeth y bwrdd du yn troi o'i gwmpaś e' (8)
19. Camp torri'r botel wedi diwedd y nos (6)
20. Rhaff yn cyffroi wedi'r pen tost (6)

### I Lawr

1. Yn dawel codir dial cymdeithas (5)
2. Y llif yn swnio'n llwyd (5)
3. Yr ochr arall ger y gof hynod (7)
4. Haint apelgar ar yn ail (3)
5. Trig adref neu byddi heb lety (9)
6. Yn maglu ych gwyllt a'i gwmpasu (9)
10. 'A dwg ni ar dy wedd
    I breswylfeydd dy hedd
    ----- ----- llygredd (HEL) (6,3)
11. Newid gwerthoedd (9)
13. Rhywsut trewais D ynlle A mewn cymedroldeb (7)
15. Dim bwyd i'r dyn olaf ar frig y don (5)
16. 'Daeth cysgod ----- dros y waun
    A chri a chyffro lle bu cerdd' (IDH) (5)
18. Offeryn taro (3)



**Atebion Rhif 135**

**Ar Draws** – 1. Ochenaid; 8. Eglwysi; 9. Ysgubau; 10. Sinai; 11. Neifion; 12. Troedle; 14. Dallineb; 18. Atyniad; 20. Oedfa; 21. Gwarchae; 22. Deinamo; 23. Digysur

**I Lawr** – 1. O! Fy enaid côd dy; 2. Esgair; 3. Asbri; 4. Deuant; 5. Clustog; 6. Cyfnod; 7. Dirifedi daear; 13. Anwadal; 15. Lledrith; 16. Bargod; 17. Diachos; 19. Y Pasg

**Enillydd Croesair Rhif 136 -**

**Robin Bateman, Yr Eglwys Newydd**

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 15 Ionawr 2014.

# —CHWARAEON—

## Cwins yn erbyn Llanisien

Teimladau cymysg oedd yn cronni yng nghalon cefnogwyr ffyddlon Cwins Caerdydd wrth iddyn nhw ymlwybro tuag at gae Llanisien ar gyfer gêm rownd gyntaf Plât Swalec. Ambell dro, mae cefnogi'r Cwins yn gallu bod yn sialens. Tra bod timau eraill yn hoffi sgorio'n gynnar ac wedyn mynd ymlaen i ennill yn rhwydd, hoff ddull y Cwins yw dangos mewn byr amser mai nhw yw'r tîm cryfaf (Cwins sydd ar frig Adran 3 De-ddwyrain Cymru adeg ysgrifennu) ac wedyn, efallai oherwydd bod pob un ohonyn nhw yn ŵr bonheddig i'r carn, roi pob cyfle i'w gwrthwynebwyr wneud gêm ohoni.

Brynhawn Sadwrn, 27 Hydref, dechreuodd y Cwins y gêm drwy dorri'r patrwm yma. Dyma'r dasg o flaen y tîm: maeddu gwrthwynebwyr sy'n chwarae bob wythnos mewn adran uwch. Diolch i rediadau cryf canolwyr y tîm cartref roedd y Cwins ar ei hôl hi o 14-0 o fewn yr wyth munud cyntaf.

Nid oedd neb ohonom ni wedi deall eto fod ildio dau gais fel hyn yn rhan o dactegau meistrolgar tîm hyfforddi bois y Diamwnt. Daeth yn amlwg wrth i'r gêm ddatblygu mai penderfyniad hollol fwriadol oedd e. Diffoddodd Llanisien yr injan, a methu ei hail-danio, i bob pwrpas, drwy gydol gweddill yr ornes. Dyma flaenwyr y Cwins yn cymryd drosodd – yr wythwr cydnerth, Callum Wishart, yn sgorio tri chais yn sgil gwaith caib a rhaw pwerus y blaenwyr – i'r fath raddau bod ysbryd a hyder eu gwrthwynebwyr wedi eu chwalu'n rhacs jibiders. Erbyn hanner amser y Cwins oedd ar y blaen o 24 i 14.

Roedd angen y toriad ar eu cefnogwyr i fewnoli'r hyn yr oedden nhw wedi bod yn dystion iddo. Hyd yn oed yn absenoldeb sawl chwaraewr dylanwadol oherwydd anafiadau ac ymrwymiadau eraill, roedd y perfformiad hwn yn dechrau gyrru ceffyl a chart drwy drefn adrannol Undeb Rygbi Cymru. Yn yr ail hanner penderfynodd yr olwyr mai eu tro nhw oedd e: ymddisgleiriodd pob un . Wedi pum munud ar hugain roeddent yn arwain o 41-19, diolch i geisiadau cofiadwy gan Luke Plummer, Paul Adams a Dafydd Franklin. Lle gynt bu galar a gofid, asbri ac, yn wir, rialtwch oedd bellach yn nodweddu wynepryd y cefnogwyr. Roedd ail gais Dafydd, yn y munudau olaf, ynghŷd â chais Steff Elis, y capten, wedi ffug-bas doniol o effeithiol, yn eisin melys ar yr hon oedd eisoes yn gacen tu hwnt o flasus.

Nelson amdani yn y rownd nesaf. Adran 1 ydyn nhw. Beth yw'r broblem?

**Phil Ellis**

# Calendr y Dinesydd • Rhagfyr - Chwefror

**Iau 14 Tachwedd i 5 Ionawr**
Gŵyl y Gaeaf Flybe Caerdydd: cyfle i sglefrio, mynd ar y Reid Seren 60 metr o uchder a nifer o reidiau ffair eraill a mwynhau adloniant byw

**Llun–Sadwrn, 9 Rhagfyr–4 Ionawr**
Sherman Cymru yn cyflwyno 'Corina Pavlova a'r Llew sy'n Rhuo' (i blant oedran 3–6), yn Theatr Sherman. Manylion pellach a thocynnau: 029-2064-6900.

**Iau, 12 Rhagfyr**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Noson hwyliog gerddorol yng nghwmni Ieuan Jones, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Manylion pellach: Siân Dowling (029-2075-3670).

**Sadwrn, 14 Rhagfyr**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 i rai sydd am loywi eu Cymraeg. Sgwrs am 11.00am gan yr Athro E Wyn James am 'Garol y Bwlch.' Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sul–Llun, 15–16 Rhagfyr**
Martyn Geraint a Theatrau Rhondda Cynon Taf yn cyflwyno'r pantomeim, 'Draw dros y don' yn Stiwdio Weston, Canolfan y Mileniwm. Swyddfa Docynnau: 029-2063-6464.

**Mawrth, 17 Rhagfyr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Minny Street. Dathlu'r Nadolig yng nghwmni Eirlys Eckley a Jean Salisbury, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm. Pwnsh a mins peis i ddilyn.

**Llun, 23 Rhagfyr**
Clwb y Diwc. Noson Nadoligaidd i'r teulu cyfan yng nghwmni Band Melin Gruffydd ac eraill, yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna am 6.30pm. Tocynnau: £3 i oedolion; £1 i blant. Yr elw a chasgliad er budd Apêl Plant Syria Unicef.

**Mawrth, 24 Rhagfyr**
Gwasanaeth Plygain yng Nghapel Pen-rhiw Sain Ffagan am 11.30pm. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach: eirlysagwyn@btinternet.com

**Mawrth, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gwasanaeth carolau a chanhwyllau dan ofal Gwenda ac Eleri, yng nghapel Bethel, Rhiwbina, am 11.00pm.

**Llun, 6 Ionawr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Prif Westai: Meri Huws (Comisiynydd y Gymraeg). Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 8 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Hen Chwedlau Dyffryn Clwyd.' Sgwrs gan E. Gwynn Matthews, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 8 Ionawr**
Cymdeithas y Gorlan. 'Bywyd a Gwaith ym Mangladesh.' Sgwrs gan Dr Rebecca Jones yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 2.15pm.

**Iau, 9 Ionawr**
Clwb Gwawr Llygaid y Dydd. Cychwyn Newydd yn Institwt Llandaf am 7.45pm. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com

**Sul, 12 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Minny Street. Dathlu'r Plygain gyda'r Parchg Ddr R. Alun Evans yn Eglwys Sant Teilo, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, am 2.00pm.

**Mawrth, 14 Ionawr**
Merched y Wawr Caerdydd. Bydd Eurwyn Wiliam yn sôn am Gelfi Brynmawr, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Wesminster Crescent am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 14 Ionawr**
Cymdeithas y Tabernacl. Noson yng nghwmni Mags Llwchwr a Phil Harries, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Gwener, 17 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Cofio John Morris-Jones.' Sgwrs gan Allan James, yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (sef Adeilad y Dyniaethau), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 18 Ionawr**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 i rai sydd am loywi eu Cymraeg. Sgwrs am 11.00am gan Arfon Jones am 'Beibl.net'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 20 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Rhodri Williams, Cyncoed, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Llun, 20 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. William Roberts (Prifysgol Caerdydd) yn trafod Astudiaethau Acwsteg Cerddorol, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 21 Ionawr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Minny Street. 'Wrth Fy Ngwaith' yng nghwmni Awen Iorwerth (llawfeddyg) a Nantlais Roberts-Jones (peilot), yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

**Mawrth, 21 Ionawr**
Cymdeithas y Tabernacl. Noson yng nghwmni rhai o gerddorion Academi Cerdd Dennis O'Neil, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Mercher, 22 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Chredwch Chi Byth.' Sgwrs gan Rhiannon Gregory, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 22 Ionawr**
Cymdeithas y Gorlan. 'Wrth Fy Ngwaith.' Sgwrs gan Dr Bethan Jones, Cyncoed, yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 2.15pm.

**Gwener, 24 Ionawr**
Merched y Wawr Cangen Bro Radur. Noson Santes Dwynwen yn y Clwb Golff, Ffordd Dryscol, Radur. Gwestai: Ieuan Jones a'i gantorion. Tocynnau gan Eirlys Eckley (029-2091-5348).

**Gwener, 24 Ionawr**
Cylch Cadwgan: E. Gwynn Matthews yn siarad ar y testun, 'Hen Chwedlau Newydd', yn Y Ganolfan, Tabernacl, Efail Isaf, am 8.00pm.

**Mawrth, 28 Ionawr**
Cymdeithas y Tabernacl. Noson yng nghwmni Huw Llywelyn Davies, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Gwener, 31 Ionawr**
Tabernacl, Yr Ais. Cyngerdd yng nghwmni Côr Godre'r Aran, Côr Meibion Taf a Rhys Meirion, am 7.30pm. Tocynnau: £10. Ar gael oddi wrth aelodau Côr Meibion Taf, ac wrth y drws ar y noson.

**Llun, 3 Chwefror**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Prif Westai: Ralph Vaughan. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 4 Chwefror**
Cymdeithas Ddiwylliannol Minny Street. 'Llun oddi ar wal fy nghartref' yng nghwmni John Wilkins a Mari Price, yn festri Capel Minny Street am 7.30pm.

**Mawrth, 4 Chwefror**
Cymdeithas y Tabernacl. Noson yng nghwmni Einir Dafydd, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Mercher, 5 Chwefror**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Janie Jones yn trafod ei hoff recordiau, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 5 Chwefror**
Cymdeithas y Gorlan. 'Orig Fach Ddifyr' yng nghwmni Alun Guy, yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 2.15pm.

**Mercher, 5 Chwefror**
Merched y Wawr Cangen Bro Radur. Trin gwallt yng nghwmni Darryl Huws yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm

**Iau, 6 Chwefror**
Clwb Gwawr Llygaid y Dydd. Aromatherapi yn Institwt Llandaf am 7.45pm. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com

**Gwener, 7 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: 'Llenyddiaeth y Rhyfel Mawr 1914–18.' Sgwrs gan yr Athro Gerwyn Wiliams, yn festri Capel y Crwys, Richmond Road, am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 11 Chwefror**
Merched y Wawr, Caerdydd. Sgwrs gan Sandra Rose am ei gwaith cywrain, yn neuadd Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Westminster Crescent am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 11 Chwefror**
Cymdeithas y Tabernacl. Noson yng nghwmni Menna Machreth, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at yr Athro E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

# CYNLLUN HYFFORDDI CENEDLAETHOL MUDIAD MEITHRIN

Tybed a oes gan rai ohonoch ddiddordeb mewn ymgeisio i fynd ar gwrs gofal plant? Mae Mudiad Meithrin yn gweinyddu ei gynllun hyfforddi cenedlaethol ar draws Cymru trwy un o'i is-gwmnïau, Cam wrth Gam.

Mae lle i 200 o fyfyrwyr newydd ar y cwrs *Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant* a fydd yn dechrau fis Ebrill 2014. Mae'r cynllun hyfforddi yma wedi profi'n boblogaidd iawn gan ei fod yn cael ei gynnig mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd a dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cynradd ar hyd a lled Cymru. Ers ei sefydlu yn 2004 mae Cam wrth Gam wedi hyfforddi dros 1,400 o fyfyrwyr sy'n eu galluogi i weithio gyda phlant yn y blynyddoedd cynnar (0 - 7 oed).

Mae'r cwrs yn para blwyddyn ac yn cael ei gynnal o fewn oriau ysgol (16 awr yr wythnos) ac yn ystod tymor ysgol yn unig (sy'n hynod o ddefnyddiol os oes gan fyfyrwyr blant ifanc oed ysgol!). Bydd y myfyrwyr yn cael eu hasesu yn y gweithle am ddwyawr bob mis gan aseswyr cymwys, a bydd disgwyl iddynt fynd i chwe gweithdy yn ystod y flwyddyn.

Yn wahanol i lawer o gyrsiau, nid oes rhaid ichi dalu am fynychu'r cwrs yma a byddwch yn derbyn yr holl adnoddau addysgol e.e. llyfrau'r cwrs, dvd a.y.y.b am ddim. Byddwch yn derbyn grant hyfforddi o £3,000 y flwyddyn.

Ar ôl llwyddo yn y cwrs a chymhwyso byddwch yn gymwys i ymgeisio am swyddi amrywiol gyda phlant ifanc e.e. arweinydd neu gynorthwy-ydd cylch meithrin, rheolwr, dirprwy reolwr neu gynorthwy-ydd mewn meithrinfa ddydd, cynorthwy-ydd dosbarth mewn ysgol gynradd, arweinydd neu gynorthwy-ydd clwb ar ôl ysgol, neu arweinydd cylch chwarae.

Beth am roi cynnig arni?

Am wybodaeth bellach, ewch i'n gwefan www.camwrthgam.co.uk, neu ebostiwch post@camwrthgam.co.uk, neu ffoniwch 01970 639601.

**Y dyddiad cau ar gyfer rhoi eich cais i mewn yw 24 Ionawr, 2014.**

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Cam wrth Gam
hyfforddiant blynyddoedd cynnar

**Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?**

Dyma gyfle gwych ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** yn y gweithle.

**Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015.**

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: **post@camwrthgam.co.uk**

neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan:

**www.camwrthgam.co.uk**

**Dyddiad cau: 24 Ionawr, 2014**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cyfle i ennill CD newydd Côr Canna

Criw o ffrindiau yn byw yng Nghaerdydd yw Côr Merched Canna, er eu bod yn wreiddiol yn hannu o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Mae brwdfrydedd ac egni'r merched yn cael eu hamlygu yn eu canu, ac mae arweiniad Delyth Medi yn eu hysgogi a'u hysbrydoli. Sefydlwyd y côr merched talentog a hwyliog yma 'nôl ym 1994 ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Nedd a'r Cyffiniau, ac ers hynny mae'r côr wedi datblygu i fod yn un o gorau merched mwyaf blaenllaw Cymru, ac yn enw adnabyddus ar lwyfan ein prif wyliau cenedlaethol, wedi ennill y prif gystadleuaeth i gorau merched niferoedd o weithiau yn ogystal â dod i'r brig yn y gystadleuaeth i gorau cerdd dant a chorau gwerin. Er mwyn ennill copi o'u cryno-ddisg newydd, *Canna*, atebwch y cwestiwn canlynol:

## Ar ôl pa ardal yng Nghaerdydd mae Côr Canna wedi ei enwi?

Atebion os gwelwch yn dda at: Recordiau Aran, Stiwdio Aran, Cae Gosen, Groeslon, Caernarfon, Gwynedd LL54 7TG, neu trwy e-bostio post@traciaucymraeg.com



*Shân Cothi gyda Delyth Medi, arweinydd Côr Merched Canna*

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

## Dathlu yn Rhiwbeina

Ar achlysur unfed pen-blwydd ar hugain Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina, daeth hanner cant ynghyd ar 28 Hydref i fwynhau te parti a baratowyd gan aelodau'r pwyllgor. Roedd balŵns yn hofran yn festri Bethany a theisen y dathlu wedi'i darparu gan Gwilym Roberts, y Llywydd Anrhydeddus. Bu ef a Mair Dyfri Jones yn hel atgofion am sefydlu'r Gymdeithas wedi i Gwilym ddychwelyd o'i flwyddyn ym Mhatagonia yn Haf 1992. Cafwyd pedair cân gan Trystan Francis, gydag Eilonwy Jones yn cyfeilio iddo.



*Teisen y Dathlu*

Yn gwmni i Trystan roedd Siân a'u baban, Mimi, ynghyd â Gwenda, mam-gu Mimi. Cyflwynwyd tusw o flodau i Dilys Hutchings ar ei phen-blwydd yn 90. Bu Dilys a'i ffrind Catherine Edwards yn aelodau selog. Bydd Dilys yn ymadael â'r ardal cyn bo hir a dymunwyd yn dda iddi.


*Catherine a Dilys*

Yn gynharach yn y mis, cododd y gyngerdd gan Gôr Meibion Taf a drefnwyd gan Falmai Griffiths, llywydd y Gymdeithas, £1,000 at Ymchwil i Ganser y Pancreas.

**Lona Roberts**

## £1,000 i Shelter Cymru

Dyna gyflwynwyd i JJ Costello, un o dîm Shelter Cymru yng Nghaerdydd, gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina at waith yr elusen, yn y cyfarfod ar 18 Tachwedd.

Diolchodd o galon am y gefnogaeth ariannol i'w helpu i barhau i roi cyngor ac arian i dros 300 o deuluoedd er mwyn eu cadw yn eu cartrefi. Mae'r elusen yn ymwybodol o'r pwysau cynyddol sydd ar deuluoedd yn y cyni presennol a'r frwydr barhaus i gael dau ben llinyn ynghyd pan fo arian mor brin. Mae'r elusen hefyd yn ymgyrchu i gadw'r argyfwng tai ym meddwl y gwleidyddion a'r cyhoedd.

Siaradwr gwadd y noson oedd Allan James, awdur y llyfr ar John Morris-Jones a ddaeth i'r brig yn 2012 yng nghystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn. Yn ogystal, mae Allan yn arbenigwr ar draddodiadau gwerin a llenyddol Morgannwg. Yn enedigol o Faesteg, cafwyd ganddo gipolwg ar fywyd gwragedd yng nghymoedd y De ddechrau'r ganrif ddiwethaf: eu harferion siopa, y modd y cadwen *nhw* ddau ben llinyn ynghyd, ac ymhle ac â phwy y defnyddid yr iaith Gymraeg, a'r pwysau cynyddol i ymwrthod â'r defnydd ohoni. Cafwyd hwyl yn dyfalu swm cyflog a phris gwahanol nwyddau yn y cyfnod hwnnw. Ystyriwch hyn: hanner coron (12 ceiniog a hanner yn arian heddiw) oedd pris stafell sengl mewn gwesty yn Llundain tra bo'r gantores fyd-enwog Adelina Patti yn derbyn £1,000 am un perfformiad. Does ryfedd fod ganddi drydan a larwm lladron yn ei chartre, Craig y Nos. Mynnai Allan nad hanesydd mohono ond hanes byw, cofiadwy gafwyd ganddo ar sail bywyd pobl gyffredin.

**Lona Roberts**

